# Cyngor Cymuned Medi 22 2016 yng Nghapel Tabor am 8 o'r gloch

Presennol : Margaret Lewis, Fred Jones, Lyn Davies, David Jones, Huw Griffith, Islwyn Jones, Morgan Morgans, Peter Tandy, y Cynghorydd Rowland Rees Evans, a'r clerc.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Mehefin 16, a Gorffennaf 28

## Materion yn codi

Ciosg ffôn Moreia. Adroddwyd fod popeth angenrheidiol wedi ei orffen.

Hysbysfwrdd y pentre. Ymholiadau yn parhau ac adroddiad i ddod yn y pwyllgor nesaf.

Ail-holi am oleuadau plant ysgol. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu eto â'r Cyngor yn Aberaeron.

Côd ymddygiad diwygiedig. Trosglwyddwyd y ddogfen i'r Cynghorydd oedd heb gael cyfle i'w ddarllen

Mater a godwyd ym mis Mai. Cynrychiolaeth ar Fwrdd Llywodraethol yr ysgol. Ar ôl gwneud ymholiadau pellach mae'n debyg bod angen cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned. Trafodwyd yr oblygiadau a'r cyfrifoldebau ac nid oedd un o'r Cynghorwyr yn gweld y medrai ymgymryd â'r swydd.

## Gohebiaeth

Hysbysiad ynglŷn â chau gwahanol ffyrdd dros dro yn ystod Gorffennaf, Awst a Medi.

Derbyniwyd adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman 2015/16

Darllenwyd ymateb cyffredinol y Cyngor Sir i'r cais am finiau halen.

Derbyniwyd dogfennau Pwyllgor Rheoli Datblygu Gorffennaf a Medi.

Diwygio Gorchymyn Parcio. Cadarnhad i ymateb y Cyngor Cymuned gael ei dderbyn.

Dyddiadau cymorthfeydd Mark Williams Medi a Hydref, Hysbyseb am Sgwrs Iach a threfniadau casglu gwastraff ar gyfer Gŵyl y Banc Awst wedi eu harddangos.

Ceredigion Age Cymru, Theatr Gydweithredol Troedy rhiw, a Chyfeillion Amgueddfa Ceredigion yn gofyn am gymorth ariannol. Byddant i gael eu hystyried amser rhannu rhoddion ym mis Ionawr.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gofyn am farn ynglŷn â'i flaenoriaethau. Ni chynigiwyd unrhyw sylw.

Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol. Barn y Cynghorwyr oedd fod yr ardal a awgrymir fel etholaeth Ceredigion a Gogledd Penfro yn llawer rhy eang i un person ei gwmpasu a gofynnwyd i'r clerc ateb gan ddweud hynny.

Cais am estyniad un llawr i Lluest y Conscience. Dim gwrthwynebiad.

Pensions Regulator. Bydd rhai camau angen eu cymryd yn nes ymlaen er mwyn cadw o fewn y gyfraith.

Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn am enwau rhai sy'n cynnig gwasanaeth clirio eira.

Derbyniwyd Summer Newsletter oddi wrth Noah's Ark a Clerk and Councils Direct mis Gorffennaf a mis Medi

## Ariannol

Cyfrif banc diwedd Awst £2558.25     Cyfrif rhif2 £6301.48

Newid enwau arwyddo sieciau. Mae'r ffurflenni angenrheidiol wedi eu derbyn a'u llenwi.

## Unrhyw Fater Arall

1 Y draeniau rhwng Waun Gron a Bethel yn dal i fod angen sylw. Y clerc i gysylltu ag Aberaeron eto.

2 Torri'r fynwent, a'r llwybr bach. Cytunwyd i ofyn i'r Clwb Ffermwyr Ifanc wneud y gwaith, yn ôl eu harfer. Gwelwyd bod angen gwneud y cais i'r Clwb ynghynt yn y flwyddyn o hyn ymlaen.

3 Signal Ffôn Symudol. Mynegwyd anfodlonrwydd nad oedd Vodaphone nac O2 wedi eu cysylltu o hyd er i hyn gael ei addo ym mis Mehefin. Y clerc i gysylltu â'r cwmni

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 27 yng Nghapel Tabor.